**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**HYSBYSIAD O ORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR A ELWID GYNT YN THE OPEN HEARTH, HENDRE FARM DRIVE, CASNEWYDD) 2026**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darnau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn, i wella'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn ac i ddarparu ar gyfer y darn newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Dinas Casnewydd ar 13 Mawrth 2026 o dan y cyfeirnod 25/0700 a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir a Elwid Gynt yn The Open Hearth, Hendre Farn Drive, Casnewydd) 2026 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer cadw hawliau ymgymerwyr statudol ar gyfer unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Swyddfa Bost Ringland, Uned 9-10, R1, Casnewydd, NP19 9EH, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2429638.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf 1990, neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol Deddf 1990;

o fewn 6 wythnos i 28 Awst 2026, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10**

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**NOTICE OF STOPPING UP OF HIGHWAYS (LAND FORMERLY KNOWN AS THE OPEN HEARTH, HENDRE FARM DRIVE, NEWPORT) ORDER 2026**

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the lengths of highway described in Schedule 1 to this Notice, to improve the length of highway described in Schedule 2 to this Notice and to provide for the new length of highway described in Schedule 3 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by Newport City Council on 13 March 2026 with reference 25/0700 described in Schedule 4 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Land formerly known as the Open Hearth, Hendre Farm Drive, Newport) Order 2026 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

The Order makes provision for the preservation of rights of statutory undertakers for any apparatus under, in, on, over, along or across the highway.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal office hours at Ringland Post Office, Unit 9-10, R1, Newport NP19 9EH, or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA2429638.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

a. it is not within the powers of the 1990 Act; or

b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 28 August 2026 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be**

**3NQ neu drwy ofyn amdano oddi wrth Trafnidiaeth.YGanganOrchmynion@llyw.cymru gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2429638.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Y darnau o briffordd sydd i'w cau**

1. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a leolir yn yr ardal barcio ar ddiwedd Hendre Farm Drive, Casnewydd NP19 9LH, gyda chyfanswm arwynebedd o 45 o fetrau sgwâr, wedi ei labelu'n "A", ac wedi ei farcio â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

2. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a leolir yn yr ardal barcio ar ddiwedd Hendre Farm Drive, Casnewydd NP19 9LH, gyda chyfanswm arwynebedd o 353 o fetrau sgwâr, wedi ei labelu'n "B", ac wedi ei farcio â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 2**
**Y briffordd newydd sydd i'w darparu**

Darn petryalog ei siâp o briffordd a leolir ar y tir a elwid gynt yn The Open Hearth, Hendre Farm Drive, Casnewydd NP19 9LH, sy'n mesur 7.5 metr yn y man lletaf a 57 o fetrau yn y man hiraf, gyda throetffordd 2 fetr ar un ochr a chyfleuster troi newydd, ac wedi ei farcio â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 3**
**Y darn o briffordd sydd i'w wella**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar Hendre Farm Drive, Casnewydd NP19 9LH, sy'n dechrau o'i chyffordd â Fred Edwards Close ac yn ymestyn i gyfeiriad y gorllewin, gyda chyfanswm ei arwynebedd yn 451 o fetrau sgwâr ac wedi ei farcio â dotwaith ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 4**
**Y Datblygiad**

Creu datblygiad preswyl newydd gan gynnwys codi 32 o unedau, mynediad, mannau parcio ceir, peirianneg, tirlunio a gwaith cysylltiedig.

**obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by requesting it from TransportOrdersBranch@gov.wales quoting reference qA2429638.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**Lengths of highway to be stopped up**

1. An irregular shaped length of highway located in the parking area at the end of Hendre Farm Drive, Newport NP19 9LH, with a total surface of 45 square metres, labelled "A", and marked with zebra hatching on the deposited plan.

2. An irregular shaped length of highway located in the parking area at the end of Hendre Farm Drive, Newport NP19 9LH, with a total surface of 353 square metres, labelled "B", and marked with zebra hatching on the deposited plan.

**SCHEDULE 2**
**New highway to be provided**

A rectangular shaped length of highway located on the land previously known as the Open Hearth, Hendre Farm Drive Newport NP19 9LH, measuring 7.5 metres at its widest point and 57 metres at its longest point, with a 2 metres footway on one side and a new turning facility, and marked with cross hatching on the deposited plan.

**SCHEDULE 3**
**Length of highway to be improved**

An irregular shaped length of highway on Hendre Farm Drive Newport NP19 9LH, starting from its junction with Fred Edwards Close and stretching in a westerly direction, with a total surface of 451 square metres and marked with stipple on the deposited plan.

**SCHEDULE 4**
**The Development**

Creation of a new residential development including the erection of 32 units, access, car parking, engineering, landscaping and associated works.